**CYTUNDEB GRANT CRONFA RADIO CYMUNEDOL ("Cytundeb Grant")**

Mae'r Cytundeb Grant hwn yn cael ei wneud rhwng:

- Y Swyddfa Gyfathrebiadau, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, Llundain SE1 9HA ("Ofcom"); a
- [Enw'r Trwyddedai, Cyfeiriad Cofrestredig, Rhif Cwmni: (lle bo'n berthnasol)] (y "Trwyddedai"),

y cyfeirir atynt yn unigol fel "Parti" ac ar y cyd fel "Partïon".

## 1. DIFFINIADAU

1.1. Diffinnir y termau canlynol a ddefnyddir yn y Cytundeb Grant hwn yn yr Atodiad:

- 1.1.1. Trwydded;
- 1.1.2. Gwasanaeth Trwyddedig;
- 1.1.3. Diben Dynodedig;
- 1.1.4. Grant; a
- 1.1.5. Cyfnod Gwariant Perthnasol.

## 2. YSTYRIAETH

2.1. Fel ystyriaeth i Ofcom ddyfarnu'r Grant i'r Trwyddedai, mae'r Trwyddedai'n cytuno i ymgymryd â'r rhwymedigaethau a nodir yng nghymal 3. Mae derbyn ystyriaeth yn cael ei gydnabod yn briodol gan y Partïon.

## 3. CYFRIFOLDEBAU

3.1. Bydd y Trwyddedai'n gwario'r Grant o fewn y Cyfnod Gwariant Perthnasol ac at y Diben Dynodedig yn unig.

3.2. Bydd y Trwyddedai'n cadw unrhyw ran nas defnyddir o'r Grant ar ymddiriedaeth i Ofcom ar bob adeg.

3.3. Bydd y Trwyddedai'n cyflwyno adroddiad i Ofcom, gan ddefnyddio'r ffurflen a gyhoeddir ar wefan Ofcom o bryd i'w gilydd, ar wariant y Grant yn y camau canlynol:

- hanner ffordd drwy'r Cyfnod Gwariant Perthnasol,
- o fewn wyth wythnos i ddiwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol,
- ag unrhyw hysbysiad a roddir yn unol â chymal 3.8 y Cytundeb Grant hwn, ac
- os yn gwneud cais am grant pellach o fewn y Cyfnod Gwariant Perthnasol, gydag unrhyw gais am grant yn y dyfodol. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys gwariant hyd at ddyddiad y cais perthnasol am grant.

3.4. Gall Ofcom fynnu'n rhesymol yn ysgrifenedig bod y Trwyddedai'n cyflwyno adroddiadau a/neu wybodaeth ychwanegol am wariant y Grant, a bydd y Trwyddedai'n cydymffurfio â'r fath ofyniad.

3.5. Bydd y Trwyddedai'n cyhoeddi ac yn sicrhau bod rhannau cyhoeddus o unrhyw adroddiadau a ddarperir i Ofcom nad ydynt yn gyfrinachol ar gael i'r cyhoedd o dan gymal 3.3 ar yr un pryd â'u cyflwyno i Ofcom. Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod

adroddiadau o'r fath ar gael i'w harchwilio yn ei swyddfeydd darlledu radio, cyfeiriad ei gwmni cofrestredig neu ar ei wefan a bydd yn hysbysu'r cyhoedd am eu hargaeledd mewn modd priodol.

3.6. Bydd y Trwyddedai'n cadw cyfrifon a chofnodion llawn a chywir o wariant Grant am o leiaf pm mlynedd ar ôl derbyn y taliad Grant. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Trwyddedai'n darparu mynediad i Ofcom at gyfrifon a chofnodion o'r fath ac unrhyw esboniad y mae ar Ofcom ei angen yn rhesymol mewn perthynas â gwario'r Grant.

3.7. Bydd y Trwyddedai'n hysbysu Ofcom yn ysgrifenedig yn brydlon am unrhyw beth sy'n achosi oedi sylweddol neu sydd fel arall yn effeithio ar wariant y Grant ac am unrhyw newidiadau i wybodaeth y mae'r Trwyddedai wedi'i darparu i Ofcom.

3.8. Pan ddyfarnwyd y Grant mewn perthynas â gorsaf Rhaglenni Sain Ddigidol Gymunedol ("C-DSP") a bod yr orsaf honno'n rhoi'r gorau i darlledu, neu'n bwriadu rhoi'r gorau i darlledu, o fewn y cyfnod Gwariant Perthnasol, mae'n rhaid i'r Trwyddedai hysbysu Ofcom yn brydlon yn ysgrifenedig, a beth bynnag o fewn pythefnos i rhoi'r gorau i darlledu.

3.9. Bydd hysbysiad o dan gymal 3.8 y Cytundeb Grant hwn yn cynnwys ;

- esboniad o pam nad yw'r orsaf yn darlledu;
- amcangyfrif o ba mor hir na fydd yn darlledu;
- adroddiad ar wariant y Grant hyd at ddyddiad yr hysbysiad a roddwyd o dan gymal 3.8; ac
- effaith, os o gwbl, peidio â darlledu ar allu'r Trwyddedai i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Cytundeb Grant hwn.

3.10. Mae'r Trwyddedai'n rhoi cydsyniad i Ofcom gyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn am y Grant: enw'r Trwyddedai, swm y Grant a ddyfarnwyd, enw a lleoliad yr orsaf berthnasol, y Diben Dynodedig a'r ffordd y mae'r Grant wedi'i wario.

## 4. TREFNIADAU ARIANNOL

4.1. Mae Ofcom yn cadw'r hawl i ddiwygio swm y Grant, gwrthod talu'r Grant, neu ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu'r Grant (neu gyfran ohono), os na chaiff y Grant, neu gyfran ohono, ei wario at y Diben Dynodedig erbyn diwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol, neu os oes gan Ofcom achos rhesymol dros gredu na chaiff y Grant ei wario at y Diben Dynodedig erbyn diwedd y Cyfnod Gwariant Perthnasol, neu os yw'r Trwyddedai wedi torri'r Cytundeb Grant hwn yn faterol.

4.2. Pan fydd Ofcom wedi rhoi Grantiau i'r Trwyddedai at nifer o Ddibenion Dynodedig gwahanol, dim ond at y diben hwnnw y defnyddir yr arian a ddyrennir i Ddiben Dynodedig penodol. Ni fydd trosglwyddiadau'n cael eu gwneud gan y Trwyddedai rhwng Dibenion Dynodedig.

4.3. Os caiff y Cytundeb Grant hwn ei derfynu'n gynnar o dan gymal 6.3 neu 6.4, bydd y Trwyddedai'n ad-dalu unrhyw arian Grant nas defnyddir erbyn y dyddiad terfynu yn unol â gofynion Ofcom.

4.4. Os bydd y Trwyddedai'n torri cymal 3.4 neu 3.6 y Cytundeb Grant hwn, gall Ofcom ei gwneud yn ofynnol i'r Trwyddedai ad-dalu'r Grant (neu unrhyw gyfran ohono y bydd Ofcom yn penderfynu arno), p'un a yw'r Grant wedi'i wario ai peidio.

4.5. Pan fydd Ofcom yn derbyn hysbysiad gan y Trwyddedai'n unol â chymal 3.8 y Cytundeb Grant hwn, neu fod gan Ofcom achos rhesymol dros gredu bod yr orsaf C-DSP y mae'r Grant yn ymwneud â hi wedi rhoi'r gorau i ddarlledu o fewn y Cyfnod Gwariant Perthnasol, gall Ofcom, yn ôl ei disgresiwn llwyr, anfon cais ysgrifenedig yn gofyn am ad-dalu'r cyfan neu gyfran o'r arian Grant.

4.6. Pan fydd y Trwyddedau wedi gwneud cais am estyniad i hyd y Drwydded cyn gwneud y cais am y Grant, a bod y cais hwn wedyn yn cael ei wrthod am unrhyw reswm, mae Ofcom yn cadw'r hawl i wrthod talu'r Grant, neu i ofyn am ad-dalu'r Grant os yw eisoes wedi'i dalu.

4.7. Heb ragfarn i gymal 4.1, os yw'r Trwyddedai'n gweithredu mewn modd sy'n faterol anghyson ag unrhyw un o delerau'r Cytundeb Grant hwn, bydd y Grant yn destun cael ei ad-dalu Ofcom a bydd y Trwyddedai'n ad-dalu'r Grant cyfan neu'r cyfryw gyfran ohono i Ofcom y mae Ofcom yn tybio ei fod yn briodol, ar ôl derbyn cais ysgrifenedig gan Ofcom.

4.8. Pan fo'n ofynnol i'r Trwyddedai wneud ad-daliad yn unol ag unrhyw gymal yn y Cytundeb Grant hwn, bydd ad-daliad yn cael ei wneud trwy BACS ddim hwyrach na thri deg diwrnod calendr o'r dyddiad y mae Ofcom yn hysbysu'r Trwyddedai [trwy e-bost i berson cyswllt y drwydded] bod y rhwymedigaeth ad-dalu wedi codi.

## 5. TAW

5.1. Mae'r Trwyddedai'n cydnabod nad yw'r Grant yn ystyriaeth am unrhyw gyflenwad trethadwy at ddibenion TAW gan y Trwyddedai i Ofcom.

## 6. HYD A THERFYNU

6.1. Bydd y Cytundeb Grant hwn yn dod i rym ar ddyddiad llofnodi diweddaraf y ddau Barti a bydd yn parhau mewn grym hyd nes y cyflawnir yr holl rwymedigaethau sy'n deillio o'r Cytundeb Grant oni chaiff ei derfynu yn unol â chymal 6.3 neu 6.4.

6.2. Gellir llofnodi'n Cytundeb Grant drwy Adobe Sign (gwasanaeth llofnod electronig). Fodd bynnag, pan fydd angen, gellir gweithredu'r Cytundeb Grant hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau, hynny yw, bydd y Partïon yn llofnodi copïau ar wahân ond union yr un fath o'r un Cytundeb Grant. Bydd pob un o'r gwrthrannau'n gyfystyr â chopi dyblyg o'r gwreiddiol, ond bydd yr holl wrthrannau gyda'i gilydd yn ffurfio'r un cytundeb.

6.3. Heb gyfyngu ar unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb Grant hwn, gall Ofcom hefyd derfynu'r Cytundeb Grant hwn ar unwaith drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Trwyddedai os:

6.3.1. yw'r Trwyddedai'n torri'r Cytundeb Grant hwn yn faterol ac, yn achos toriad y gellir ei gywiro, yn methu â'i gywiro o fewn tri deg diwrnod calendr o dderbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Ofcom i wneud hynny (er mwyn osgoi amheuaeth, ystyrir bod torri cymalau 3.4 a 3.6 yn doriadau materol);

6.3.2. yw'r Trwyddedai'n torri'r Cytundeb Grant hwn yn faterol mewn ffordd na ellir ei gywiro o dan unrhyw amgylchiadau;

6.3.3. cred Ofcom yn rhesymol fod y Grant wedi'i ddyfarnu ar sail datganiadau ffug a wnaed gan y Trwyddedai;

6.3.4. yw'r Trwyddedai'n pasio penderfyniad i ddirwyn i ben (ac eithrio at ddibenion cyfuno neu ailadeiladu diddyled), neu fod llys awdurdodaeth gymwys yn gwneud gorchymyn i'r perwyl hwnnw;

6.3.5. yw'r Trwyddedai'n rhoi'r gorau i gynnal ei fusnes neu'n sylweddol y cyfan o'i fusnes;

6.3.6. caiff y Trwyddedai ei ddatgan yn fethdalwr, neu'n cynnull cyfarfod neu'n gwneud neu'n bwriadu gwneud unrhyw drefniad neu gyfansoddiad gyda'i gredydwyr; neu os penodir diddymwr, derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, rheolwr, ymddiriedolwr neu swyddog tebyg dros unrhyw un o'i asedau; neu

6.3.7. os dirymir y Drwydded.

6.4. Mae terfynu'r Cytundeb Grant hwn yn bosib ar unrhyw adeg drwy gytundeb ysgrifenedig ar y cyd rhwng y ddau barti.

6.5. Yn achos terfynu'r Cytundeb Grant hwn yn gynnar, bydd y rhwymedigaethau yng nghymal 3 ynglŷn ag adrodd a chadw cofnodion a'r rhwymedigaethau yng nghymal 4 ynghylch dal ac ad-dalu cronfeydd Grant yn parhau i fod yn berthnasol.

## 7. DATGELU

7.1. Gall Ofcom, o fewn y gyfraith, ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Grant, er enghraifft i gyflawni ein swyddogaethau statudol.

## 8. DARPARIAETHAU GWEINYDDOL A CHYFREITHIOL

8.1. Cyfraith Lloegr sy'n llywodraethu'r Cytundeb Grant hwn.

8.2. Bydd y Partïon yn ddidwyll yn ceisio datrys unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r Cytundeb Grant hwn neu mewn cysylltiad ag ef gan ddefnyddio prosesau datrys anghydfod amgen.

8.3. Ac eithrio mewn perthynas â'r hawliau a roddir yng nghymal 8.4 y Cytundeb Grant, nid oes dim yn y cytundeb hwn sy'n rhoi nac yn honni ei fod yn rhoi unrhyw fuddiannau neu hawliau i unrhyw drydydd parti orfodi unrhyw un o delerau'r cytundeb hwn o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

8.4. Dyfernir y Grant gan y Gronfa Radio Cymunedol sy'n arian a ddarperir gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac a weinyddir gan Ofcom. Bydd hawliau gan DCMS i orfodi darpariaethau'r Cytundeb Grant hwn.

## 9. ATODIAD

Mae'r Atodiad amgaeedig yn rhan o'r Cytundeb Grant hwn.

Rydym yn derbyn Telerau ac Amodau'r Cytundeb Grant hwn.

**Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran y Trwyddedai gan:** ______________________________

Enw (yn llawn): ______________________________

Swydd yn y Sefydliad: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

**Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran Ofcom gan:** ______________________________

Enw (yn llawn): ______________________________

Swydd yn y Sefydliad: ______________________________

Dyddiad: ______________________________

## ATODIAD

| | |
|---|---|
| 1. Trwydded | [rhowch y rhif/rhifau trwydded] |
| 2. Gwasanaeth(au) Trwyddedig | [enw(au)'r gwasanaeth] |
| 3. Trwyddedai | |
| 4. Diben Dynodedig mewn perthynas â'r Drwydded [rhowch y rhif trwydded perthnasol] | |
| [Ychwanegwch maes/meysydd ychwanegol ar gyfer pwynt 4 uchod fel y bo angen] | |
| 5. Grant | £ *[cynhwysiadau/eithriadau]* |
| 6. Cyfnod Gwariant Perthnasol | [] neu unrhyw ddyddiad diweddarach y bydd y Panel, yn ysgrifenedig, yn ei gymeradwyo. |